# Cynllunio a chyflwyno trosglwyddo gwybodaeth/technoleg

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio trosglwyddo gwybodaeth/technoleg.

Mae trosglwyddo gwybodaeth/technoleg yn ymwneud â throsglwyddo arfer da, canlyniadau ymchwil a sgiliau, rhwng prifysgolion, cyrff a sefydliadau ymchwil eraill, busnesau a'r gymuned ehangach i alluogi arloesedd a datblygu cynnyrch, gwasanaethau a thechnolegau newydd.

Gallai'r weithred o drosglwyddo gynnwys mentora, hyfforddiant, mynediad at ddogfennau a chydweithredu arall o fewn neu rhwng sefydliadau a gallai gynnwys grwpiau ac unigolion.

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai dim ond un mewn wyth o sefydliadau sydd yn mabwysiadu syniadau neu ddulliau newydd yn gynnar a bod y gweddill yn methu gwneud defnydd llawn o'r wybodaeth a'r technolegau sydd ar gael a allai wella eu busnes. Mae'n rhaid i ddiwydiant cystadleuol a chynaliadwy wneud defnydd llawn o wybodaeth a thechnolegau arloesol sydd wedi eu profi.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer ystod eang o bobl, a allai gynnwys cynghorwyr, ymgynghorwyr, swyddogion maes, gweithwyr ehangu yn ogystal â staff sydd yn trosglwyddo gwybodaeth/technoleg ar gyfer sefydliadau'r llywodraeth.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r angen i drosglwyddo gwybodaeth/technoleg
2. nodi ffynonellau allweddol o wybodaeth/technoleg newydd neu bresennol
3. nodi a chael mynediad at rwydweithiau, cymunedau a ffynonellau gwybodaeth/technoleg eraill
4. hybu buddion gwybodaeth/technoleg ar draws y boblogaeth darged
5. nodi ffyrdd addas o ddarparu'r wybodaeth/technoleg i bobl eraill ei rhannu
6. gweithredu systemau, offer a phrosesau cytûn sy'n cefnogi creu, datblygu, cyfleu a rhannu gwybodaeth/technoleg
7. cynllunio a gweithredu dulliau trosglwyddo sy'n berthnasol i'r gynulleidfa darged er mwyn cael y canlyniadau dymunol fel ymgymeriad, graddfeydd amser ac effeithiolrwydd cost gwell
8. cyflwyno trosglwyddo gwybodaeth/technoleg mewn ffordd sydd yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged
9. darparu'r hyfforddiant, y cymorth a'r arweiniad sy'n ofynnol i alluogi pobl i gael mynediad effeithiol at wybodaeth/technoleg a'i rhannu
10. gwerthuso'r risg sydd yn gysylltiedig â rhannu gwybodaeth/technoleg a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol i ddiogelu eiddo deallusol rhag defnydd diawdurdod
11. monitro effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth/technoleg
12. addasu methodoleg, os oes angen, i gael y canlyniadau dymunol
13. addasu systemau, offer a phrosesau, os oes angen, i gael y canlyniadau dymunol
14. cadarnhau bod cofnodion priodol yn cael eu cynnal a'u storio fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth, codau ymarfer, gofynion sicrhau ansawdd a pholisïau sefydliadol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i nodi gofynion ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth/technoleg i gynorthwyo gynllunio
2. sut i nodi ffynonellau gwybodaeth/technoleg cyfredol a datblygol perthnasol
3. sut i nodi rhwydweithiau, cymunedau a ffynonellau eraill gwybodaeth/technoleg
4. egwyddorion, technegau ac arfer da trosglwyddo gwybodaeth/technoleg
5. y ffyrdd y gellir creu, datblygu, cyfleu a rhannu gwybodaeth/technoleg
6. y ffactorau sydd yn dylanwadu ar ymgymeriad gwybodaeth/technoleg yn cynnwys adnabod mabwysiadwyr cynnar ac oedwyr (y rheiny sydd yn araf i fabwysiadu)
7. y dulliau o gyflwyno gwybodaeth/technoleg
8. cryfderau a gwendidau dulliau trosglwyddo amrywiol
9. sut i annog pobl i rannu gwybodaeth a defnyddio systemau, offer a phrosesau trosglwyddo gwybodaeth/technoleg
10. sut i gadarnhau bod y wybodaeth a geir yn cael ei chyfleu yn effeithiol ac ar gael i'r rheiny a allai gael budd ohoni
11. sut i werthuso effeithiolrwydd y dulliau a ddefnyddir ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth/technoleg
12. sut i addasu'r dull o drosglwyddo gwybodaeth/technoleg yn seiliedig ar y lleoliad a'r gynulleidfa darged
13. goblygiadau hawliau eiddo deallusol a deddfwriaeth hawlfraint i rannu gwybodaeth/technoleg
14. yr angen i gynnal system gofnodi a monitro'r canlyniadau

## Geirfa

**Gallai dulliau cyflwyno gwybodaeth/technoleg gynnwys:**

- addysg
- hyfforddiant
- cyfathrebu electronig
- ymgynghoriaeth
- cydweithredu

Cynllunio a chyflwyno trosglwyddo gwybodaeth/technoleg

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2018 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2023 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAgM14 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfarwyddwr, Ffermwr, Rheolwr Fferm, Cynghorydd Technegol Amaethyddol |
| **Cyfres/Set** | Rheolaeth Amaethyddol |
| **Geiriau Allweddol** | gwybodaeth; technoleg; rhannu; cyfleu; trosglwyddo |